# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 13 Tachwedd 2014
# i'w hateb ar 18 Tachwedd 2014

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Lefarwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. **Gwyn Price (Islwyn)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael ynghylch caniatáu i bobl 16 a 17 oed bleidleisio mewn refferendwm ar bwerau i amrywio trethi yng Nghymru yn y dyfodol? OAQ(4)1966(FM)

2. **Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y niferoedd sydd wedi cael brechiadau MMR yng Nghymru? OAQ(4)1957(FM)

3. **Gwenda Thomas (Castell-nedd)**: Pa gamau sy'n cael eu cymryd i roi cyhoeddusrwydd i'r ymgynghoriad ar ddyfodol y Gronfa Byw'n Annibynnol yng Nghymru? OAQ(4)1958(FM)**W**

4. **Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ynglŷn â dyfodol brecwast ysgol am ddim? OAQ(4)1965(FM)**W**

5. **Elin Jones (Ceredigion)**: Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda Llywodraeth y DU mewn perthynas â chynlluniau i yswirio tai sydd o dan fygythiad gan lifogydd? OAQ(4)1960(FM)**W**

6. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru)**: A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl sydd ag Anhwylderau yn y Sbectrwm Awtistig yng Nghymru? OAQ(4)1955(FM)

7. **Lynne Neagle (Torfaen)**: Pa asesiad y mae'r Prif Weinidog wedi'i wneud o adroddiad y Comisiynydd Pobl Hŷn ar safonau mewn cartrefi gofal yng Nghymru? OAQ(4)1969(FM)

8. **Mick Antoniw (Pontypridd)**: A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar bwysigrwydd yr UE i economi Cymru? OAQ(4)1959(FM)

**9. Paul Davies (Preseli Sir Benfro):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar ddarparu gwasanaethau iechyd yng ngorllewin Cymru? OAQ(4)1954(FM)

**10. Jeff Cuthbert (Caerffili):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y manteision i Gymru o aelodaeth y DU o'r Undeb Ewropeaidd? OAQ(4)1964(FM)

**11. Julie Morgan (Gogledd Caerdydd):** Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gynyddu cyflogaeth yn ne Cymru? OAQ(4)1967(FM)

**12. Darren Millar (Gorllewin Clwyd):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar sicrhau gwerth am arian ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru? OAQ(4)1968(FM)

**13. Dafydd Elis-Thomas (Dwyfor Meirionnydd):** Pa gyfarfodydd y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael gydag Ysgrifennydd Gwladol presennol Cymru ers ei benodiad? OAQ(4)1961(FM)**W**

**14. Russell George (Sir Drefaldwyn):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad ar y trafodaethau diweddar y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael gyda'r Grid Cenedlaethol ynghylch Prosiect Cysylltiad Canolbarth Cymru? OAQ(4)1956(FM)

**15. Ann Jones (Dyffryn Clwyd):** Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu'r economi yn Nyffryn Clwyd? OAQ(4)1970(FM)